Fel yr hydd a fref am ddyfroedd

Caneuon Ffydd: Rhif 224

Fel yr hydd a fref am ddyfroedd,
felly mae fy enaid i
yn dyheu am fod yn agos
er mwyn profi o'th gwmni di.

Ti dy hun yw fy nerth a'm tŵr,
a chyda thi, 'rwyf finnau'n siŵr
mai tydi yw serch fy nghalon,
ac O Dduw, addolaf di.

Gwell wyt ti nag aur ac arian,
dim ond ti all lenwi 'mryd:
ti dy hun rydd im wir lawenydd,
'rwyt ti'n werth y byd i gyd.

Ti yw 'Mrawd a thi yw 'Nghyfaill,
er mai'r Brenin ydwyt ti:
caraf di ganmil gwell na'r cwbl,
mwy na phawb a phopeth sy.

MARTIN NYSTROM
cyf. PETER M. THOMAS a CASI JONES

MYFYRDOD

Braf yw gweld ambell gorawd mwy diweddar wedi llwyddo i gael mynediad i *Caneuon Ffydd*, ac mae'r emyn hwn yn sicr wedi ennill ei le ymhlith y gwaddol cyfoethog o emynau sydd gennym fel cenedl. Cyfieithiad ydyw gan ddau o weinidogion ein hoes ni sydd hefyd yn feirdd, sef Peter Thomas a Casi Jones. Un o nodweddion amlycaf emyn yw'r ffordd y mynega wirioneddau Beiblaidd, ac y defnyddia ddelweddau Beiblaidd er mwyn mynegi ein profiad ninnau o Dduw. Dyna gryfder yr emyn sydd o'n blaenau hefyd.

Awn yn syth at y Salmau yn y llinell gyntaf un ac at yr hydd

hwnnw sydd yn brefu 'am ddyfroedd rhedegog' (Salm 42:1), ac sy'n ddarlun o'r enaid sy'n 'sychedu am Dduw, am y Duw byw' (adn. 2). Dydy pyllau o ferddwr ddim yn gwneud y tro i'r hydd, ac mae'n rhaid iddo gael dŵr glân rhedegog. Felly hefyd y cymhara Iesu ei hun â'r ffynnon o ddŵr bywiol (Ioan 4) o'i chymharu â'r pwll o ferddwr yr oedd y wraig wedi arfer codi ei dŵr ohono. Mae yma syched a hiraeth yn yr emyn am y Duw byw, yr unig un sy'n abl i 'lenwi 'mryd'. Yr ydym i feithrin ein syched a'n newyn amdano oherwydd mai ef yn unig sy'n abl i'n disychedu a'n digoni. 'Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon', meddai Iesu yn y Gwynfydau (Mth. 5:6).

Byddwn yn bodloni'n aml ar y 'pydewau toredig, na allant ddal dŵr' (Jer. 2:13) a gloddiwn i ni ein hunain, a gadael 'ffynnon y dyfroedd byw', ond mae Duw yn ein galw'n ôl ato ac yn rhoi syched ynom ni amdano ef ei hun, Ef hefyd sydd yn cyflenwi'r syched hwnnw. Ond wrth inni fod eisiau treulio mwy o amser yn ei gwmni, y mae'r dyhead a'r syched amdano yn cryfhau nes na allwn ni ond ein rhoi ein hunain yn llwyr iddo mewn addoliad a mawl: 'O Dduw, addolaf di'. Nid yw Duw yn fodlon gadael i'n heneidiau ni newynu (Diar. 10:3); yr ydym yn rhy werthfawr ganddo i hynny ddigwydd, gan mai ef ei hun sydd wedi gosod eneidiau ynom ni, ac ef ei hun sydd wedi gosod bwlch neu wacter yn ein calonnau na all neb arall ei lenwi'n llawn. O'i gael i lenwi'r gwacter hwnnw, fe gawn ei garu fel Brawd a Chyfaill a Brenin 'gwell na'r cwbl, mwy na phawb a phopeth sy'.

GWEDDI

O Dad, dim ond diolch sydd gennyf dy fod wedi gosod enaid a bery yn dragywydd ynof fi, enaid sydd yn dod i'w lawn dwf yn unig ynot ti wrth imi ymateb i'r syched sydd ynddo am dy ddŵr bywiol di dy hun, dy iachawdwriaeth lawn yn Iesu Grist. Er ei fwyn ef. Amen.